**CYNGOR CYMUNED BEDDGELERT**

**Cyfarfod 28ain o Ionawr 2019 am 7.30yh**
**Neuadd Gymunedol Beddgelert**

1. **Presennol:** Anne Till (AT), Cynghorydd Alwyn Gruffydd (AG), Dewi Roberts (DR), John Williams (JW), Richard Aherne (RA), June Jones (JJ), Elgan Jones (EJ), Iola Till (IT), Tomos Hughes (TH) ag Shirley Williams (SWW – Clerc)

2. **Absennol:** Ffion Emlyn (FfE)

3. **Ymddiheuriadau:** Dim

***Cyn cychwyn y cyfarfod, dymunodd AT nodi bod y pwyllgor yn estyn eu cydymdeimladau diffuant i Ffion Emlyn a'i theulu yn dilyn ei phrofedigaeth ddiweddar.***

4. **Cofnodion – 7fed o Ionawr 2019:** Datganwyd eu cywirdeb gan DR ac RA yn eilio.

5. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:**

(1) Biniau Ailgylchu – Llythyr gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn nodi bod y biniau wedi eu tynnu o faes parcio Beddgelert, ac amryw o safleoedd yng Ngwynedd er mwyn arbed arian.
(2) System PAYE – Y system yn gweithio yn iawn erbyn hyn.
(3) Y Wefan – Dim ymateb wedi ei dderbyn gan D. Hinde, felly'r Clerc i ail gysylltu.
(4) Dwr yn codi yn Stryd Gwynant, Beddgelert: SWW i gysylltu â Gwaith Stryd, Cyngor Gwynedd am ddiweddariad.

6. **Sefyllfa Ariannol**

Datganiad banc dyddiedig 16eg o Ionawr 2019 yn dangos balans o:

(1) Cyfrif 80149101 - £2,483.87
(2) Cyfrif 41810189 - £1,910.10
(3) Arian i mewn: £510.89 (Treth Cyngor)
Rent Llys Buckley
Siec am £2.40 ar y fordd gan Dafydd Hardy (ad-daliad Scottish Power)
(4) Biliau wedi eu talu - Dim
(5) Biliau i'w talu:

| | |
|---|---|
| Harriet Lee – TAW | £284.40 |
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru - Cyfraniad Ariannol | £25.00 |
| Ffermwyr Ifanc Eryri - Cyfraniad Ariannol | £25.00 |

7. **Ceisiadau Cynllunio –** NP2/11/31M – Snowdonia Forest Park, Beddgelert, LL55 4UU – Ail leoli uned llety staff, lle parcio a gwaith cysylltiedig - Dim gwrthwynebiad.

8. **Asesiadau Risg Mynwentydd (coed a cherig beddi)** – Asesiad Risg ar y coed i'w gael ei wneud yn flynyddol, ond petai storm bydd angen gwneud Asesiad Risg yn syth. RA i gysylltu â Richard Pearson ac Ifor Glendale am ddyfynbris.

Dyfynbris rhatach wedi ei dderbyn gan Ifan ac Idris er mwyn gwneud Asesiad Risg ar y cerrig beddi; felly SWW i gysylltu â hwy er mwyn cychwyn y broses. Bydd angen i'r contractwyr wneud asesiad arwahan ar gyfer y cerrig beddi sydd ar dir o dan gyfrifoldeb yr Eglwys. JJ i anfon manylion Val Blake (aelod pwyllgor yr Eglwys) ymlaen i SWW.

9. **Gohebiaeth**

(1) Dewi Owen, Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd – Cadarnhad wedi ei dderbyn mai grant o £697.90 fydd y Cyngor Cymuned yn ei dderbyn ar am 2019/20 er mwyn cynnal y llwybrau. SWW i gysylltu efo Ifan ac Idris am ddyfynbris yn ogystal â chael cadarnhad pa fisoedd maent yn cario'r gwaith allan yn ogystal â chael yr anfoneb am eu gwaith cynnal llwybrau am 2018/19.
(2) Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Lleol Eryri Diwygiedig - Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd: Llythyr er gwybodaeth.
(3) Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Cenedlaethol yn ymwneud â Chynghorau Cymuned a Thref: Llythyr er gwybodaeth. SWW i anfon y linc i'r aelodau.
(4) Rhian Williams, Cludiant Integredig, Cyngor Gwynedd – Rhwydwaith Cludiant Cyhoeddus: Trafodwyd cynnwys y llythyr ac o ganlyniad SWW i gysylltu i gael copi caled o'r holiadur.
(5) Jane Hodds – "Making Tax Digital" – Llythyr er gwybodaeth.
(6) Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru – Cais am gyfraniad ariannol: Penderfynodd y Cyngor Cymuned i roi rhodd o £25.00 i'r elusen.
(7) Ffermwyr Ifanc Eryri - Cais am gyfraniad ariannol: Penderfynodd y Cyngor Cymuned i roi un taliad o £25.00 yn hytrach nag ymuno efo'u "Cynllun Ffrindiau".

10. **Materion Lleol**

(1) Lleoli Plac Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon: JJ i gysylltu â Chanolfan Hebog i weld petai modd lleoli'r plac tu allan ar yr adeilad.
(2) Stryd Gwynant Beddgelert: Llythyr gan P Monico er gwybodaeth a llythyr gan Mari L Williams, Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn nodi y bydd yn ysgrifennu at y Cyngor Cymuned efo'r canlyniadau wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar y 7fed o Chwefror 2019.
(3) Llecyn o dir ger tai Cartrefi Cymunedol, Nantmor – Bonyn coeden: Hysbysodd JJ fod bonyn coeden anferth wedi disgyn i mewn i'r afon. JJ am anfon lluniau i SWW fel ei bod yn gallu ysgrifennu llythyr i Gartrefi Cymunedol.
(4) Bwlchllechog a Ddolfriog: Ffos ddwfn wedi ymddangos ar yr ochr chwith cyn y tro ar ben y rhiw ger Bwlchllechog ac ar yr ochor chwith wrth fynd i lawr y rhiw am Ddolfriog sy'n golygu bod dŵr yn llifo ar draws y ffordd. SWW i anfon llythyr i Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
(5) Fynwent Newydd: SWW i gysylltu â Idris ag Ifan efo cais iddynt dorri'r drain sydd yn y llecyn bach o dir ochr dde i'r llwybr ar y ffordd i fyny'r fynwent ar ôl y grid gwartheg.
(6) Penygwryd: Adroddodd TH fod problemau parcio yn parhau i fod yn yr ardal. SWW i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i holi os oes cynlluniau ar y gweill i leihau'r broblem.

(7) Marathon Eryri: Hysbyswyd y Cyngor Cymuned fod ysgrifennu yn parhau i fod ar y ffordd ger troed i lety Gwyliau Coedwigaeth.  SWW i gysylltu efo trefnwyr y marathon i ofyn iddynt lanhau'r ysgrifennu oddi ar y ffordd.

**11. Llys Buckley (cyfarfod caeedig)**

Adroddodd AT ar gynnwys adroddiad a dderbyniwyd gan Dafydd Hardy yn dilyn eu harchwiliad ar yr eiddo.

**12. Unrhyw Fater Arall**

Dogfennau i'r Archifdy: Dim gwrthwynebiad i'r dogfennau fynd i'r Archifdy.  AT i gadw'r hen fapiau a ffeiliau am y 3 blynedd diwethaf.  Cynlluniau Parc Cenedlaethol i'w gael eu hailgylchu.

**13. 15. Dyddiad Cyfarfod Nesaf –** 25ain o Chwefror 2019 am 7.30yh.